

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn un o blith 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG ac yn un o blith y 6 Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, yn dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn:

- buddsoddi yn y dyfodol drwy helpu pobl o bob oed i werthfawrogi a deall bywyd gwylt yn well;
- prynu a rheoli gwarchodfeydd natur;
- ymgymryd â phrosiectau sydd o fudd i fywyd gwylt mewn trefi ac yng nghefn gwlad;
- herio datblygiadau sy'n bygwth cynefinoedd bywyd gwylt;
- gweithio gyda'r cyhoedd, cymunedau, perchnogion tir, cyngorau lleol ac eraill i warchod bywyd gwylt ar gyfer y dyfodol.

Os hoffech helpu i gefnogi cadwraeth bywyd gwylt drwy ddod yn aelod neu'n wirfoddolwr, neu os hoffech wybodaeth am warchodfeydd natur lleol, cysylltwch â:

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**

**Pencadlys ac Aelodaeth**

376 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YE  
01248 351541

**e-bost:** [nwwt@wildlifetrustswales.org](mailto:nwwt@wildlifetrustswales.org)

Elusen Gofrestredig: 230772 Cwmni Cyfyngedig: 773995

**[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)**

The North Wales Wildlife Trust is one of 47 Wildlife Trusts across the UK and one of 6 Welsh Wildlife Trusts.

We are a registered charity, dependent on the support of our members and donations.

**The North Wales Wildlife Trust**

- invests in the future by helping people of all ages to gain a greater appreciation and understanding of wildlife;
- acquires and manages nature reserves;
- undertakes projects to benefit wildlife in towns and countryside;
- challenges developments which threaten wildlife habitats;
- works with the public, communities, landowners, local councils and others to protect wildlife for the future.

If you would like to help support wildlife conservation by becoming a member or volunteer, or would like information about local nature reserves, please contact:

**North Wales Wildlife Trust**

**Headquarters & Membership**

376 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1YE  
01248 351541

**email:** [nwwt@wildlifetrustswales.org](mailto:nwwt@wildlifetrustswales.org)

Registered Charity No. 230772

Company No. 773995

antenna creative 07772 829063 Fotograffau gan // Photographs by Lin Cummins Luniau gan // Illustrations by Philip Snow Papur wedi'i allgyfu/chu 100% recycled paper



### Lleoliad a Mynediad

Mae Cors Maen Llwyd ar ochr ogledol Llyn Brenig, tua 7 milltir i'r de-orllewin o Ddinbych a 4 milltir i'r gogledd o Gerrigydudion, ar y B4501 (sy'n mynd drwy rhan ogledol y warchodfa). Mae dau faes parcio, un yn rhan ogledol y warchodfa (SH970 580) ac un tua'r pen dwyreiniol yn agos i'r cwt adar (SH983 574).

Mae Cors Maen Llwyd yn lle agored ac unig lle gall y tywydd newid yn gyflym ac yn ddirybu. Gnewch yn siŵr felly eich bod chi'n paratoi'n drylwyr ar gyfer mynd yno a bod gennych chi ddillad cynnes, a dillad dal dŵr. Rydym ni'n argymhell i chi wisgo esgidiau cryfion oherwydd natur anwastad y llwybrau. Mae'r tir yn agored i bawb, ond cadwch at y llwybrau cerdded er mwyn peidio ag amharu ar y bywyd gwylt. Does dim signal ffôn symudol mewn rhannau helaeth o'r warchodfa.

### Location and Access

Gors Maen Llwyd lies at the northern end of Llyn Brenig, 7 miles south-west of Denbigh and 4 miles north of Cerrigydudion on the B4501 which passes through the north of the reserve. There are two car parks, one on the north of the reserve (SH970 580) and one near the bird hide (SH983 574) to the east.

Gors Maen Llwyd is an exposed and isolated site. The weather can change quickly so please be prepared, with warm clothes and waterproofs. Walking boots are recommended as paths are uneven. While the site is open access land, please keep to the marked paths to avoid disturbance to wildlife. Mobile phone reception is poor.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddoedi mewn Ardal oedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



**Ymddiriedolaeth Natur  
Gogledd Cymru**  
**North Wales  
Wildlife Trust**



**Gwarchodfa Natur  
*Gors Maen Llwyd*  
Nature Reserve**

**Gwarchod Natur ar gyfer y Dyfodol  
Protecting Wildlife for the Future**

# Gors Maen Llwyd 'Bog of the Grey Stone'

I'r un sy'n chwilio am gynefin byd natur gwirioneddol wylt mae'r rhan yma o Fynydd Hiraethog yn ateb y diben i'r dim. I'w dwyraint mae Dyffryn Clwyd ac i'w gogledd y môr. I'w de mae Llyn Brenig a mynyddoedd y Berwyn ac i'w gorllewin golygfeydd godidog o Eryri. Mae Cors Maen Llwyd yn cynnig gwledd pob amser i synhwyrau'r ymwelydd, waeth beth fo'r tywydd!

Mae'r gors wedi'i henwi ar ôl y maen llwyd sydd i'w weld ym mhen ogledd-ddwyreiniol y warchodfa. Mae'r maen, yn ôl pob tebyg, yn un o nifer fawr o greigiau a cherrig a olyngwyd yma pan giliodd rew yr Oes Rhew ddiwethaf, oddeutu 14,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae gwarchodfa Cors Maen Llwyd yn ymestyn dros 270 hectar o dir ac ers 1988 yn un o warchodfeydd natur mwyaf Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae hi hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

A truly wild place high on the Denbigh moors, with views across the Vale of Clwyd to the sea in the north, south over Llyn Brenig to the Berwyn Mountains, and west to Snowdonia - visiting this place will awaken your senses whatever the season, and whatever the weather.

The site gets its name from a grey stone, or 'Maen Llwyd' in the north east corner of the reserve. It is one of many stones carried here by a great ice sheet and left behind as the ice retreated some fourteen thousand years ago. At 270 hectares Gors Maen Llwyd is one of the largest nature reserves owned and managed by the North Wales Wildlife Trust (since 1988) and is a Site of Special Scientific Interest.



## Tirwedd fyw

Pan ddaeth y Celtiaid cyntaf i Gymru bedair mil o flynyddoedd yn ôl, yn ystod yr Oes Efydd, fe fu iddyn nhw glirio llawer o'r coed cynhenid er mwyn creu porfeydd i'w hanifeiliaid. Hyn, ynghyd â'r pori ei hun, sy'n bennaf gyfrifol am y rhostir sydd i'w weld yma heddiw. Mae yma hefyd nifer o domennyydd claddu, beddrodau penaethiaid Oes y Cerrig i'w gweld ar y llethrâu ger y Llyn. Ar y tomennyydd heddiw fe welwch chi blanhigion megis tresgl y moch, botasen y gog, y gwrneth a'r blodyn prin ac arbennig hnwnw, fioled y mynydd.

Roedd Mynydd Hiraethog ar un adeg yn gyrchfan i saethwyr grugieir tan y 19au. Ceir y grug ei losgi pob 15 mlynedd er mwyn annog tyfiant grug ifanc a llus a fyddai'n fwyd i'r grugiar ac anifeiliaid fferm.

Yn 1976 cafodd y dyffryn ei llofogi er mwyn ffurio cronfa ddŵr Llyn Brenig, i gydbwysol llofog i Ddyfrdwy. Dŵr Cymru sy'n berchen ar y llyn a'r goedwig ac yn darparu llwybrau cerdded a beicio, cyfleusterau pysgota, a chanolfan ymwelwyr ar lan orllewinol y llyn (ger yr A453).



# Gors Maen Llwyd

## 'Bog of the Grey Stone'



### Rheoli er budd bywyd gwylt

Mae oddeutu tri chwarter rhostir grug y byd i'w gael ar ynysoedd Prydain ac mae llawer o hnwnw wedi'i droi'n dir amaethyddol neu'n goedwigaeth, gan ei wneud yn gynefin flaenorriaeth ar gyfer cadwraeth natur.

Er nad oes bellach unrhyw saethu ar Gors Maen Llwyd, mae dull y ciperiaid o reoli'r tir llosgi a thorri'r grug yn parhau er mwyn creu cynefin delfrydol i'r grugiar goch, y grugiar ddu ac anifeiliaid gweundir eraill. Mae ffermwyr yr ardal yn dal i bori anifeiliaid yma yn ystod yr haf, felly mae hi'n bwysig cadw eich ci ar dennyn.

### Bywyd gwylt – drwy'r flwyddyn

Mae Cors Maen Llwyd yn gartref parhaol i nifer o greaduriaid a phlanhigion godidog a phrin. Efallai y gwelwch chi yma rai o adar nodweddiadol yr ucheldir, y giach a'r gylfinir er enghraift, neu'r grugiar goch ar y gweundir agored, neu'r grugiar ddu ger y coedwigioedd lle bydd yn clwydo.

Mae traean y warchodfa'n gorstir, naill ai'n orgors neu'n glytiau gwlyb yn cynnwys migwyn, plu'r gweunydd, ffeuen y gors, perthi llugaeron a'r prif-fwytawr enwog hnwnw, chwys yr haul. Mae 13 math o hesgen neu frwynen yn tyfu yma. Y rhai mwyaf diddorol mae'n debyg ydi'r hesg penwyn, ysgar, dywyll-felen a'r bengron.

Mae'r corstir yn gynefin delfrydol i nifer o greaduriaid di-asgwrn-cefn sydd yn eu tro yn fwyd i gywion y grugiar ac adar eraill megis pibydd y waun, yr ehedydd, crec y garreg, crec yr eithin a'r dinwen.

Mae adar ysglyfaethus fel y bod tinwen, y gwalch glas, y gwalch bach, y gwyddwalch a'r cudyll coch i'w gweld o bryd i'w gilydd uwchben y warchodfa.

Gwyliwch, a gwrandwch, am famaliaid mae 15 math gwahanol wedi eu gweld yma, yn cynnwys llwynogod a moch daear, gwencwn, carlymod, dyfrgwn a sgwarnogod.

### Bywyd gwylt - tymhorol

Yn nechrau'r gwanwyn fe allwch chi weld sgwarnogod yn paffio, a chlywed cri grugiar ddu wrth iddo wneud ei ddawns paru, neu wylio'r gwyachod mawr copog yn canlyn ar y llyn.

Mae canol yr haf yn amser da i weld blodyn melyn trawiadol llafn y bladur ac adar, er enghraift pibydd y dorlan wrth y llyn, yr ehedydd uwchben y gweundir a gwennol y tywod yn nythu ar lannau'r llyn. Fe allech chi hefyd weld madfall neu wiber yn torheulo ar lethrau neu greigiau heulog.

Awst ydi'r amser i weld grug y mynydd yn ei flodau ac yn llenwi'r gweunydd â'i borffor. Mae grug clochog a grug y mîl i'w cael yma hefyd, ond mae'r rhain yn blodeuo'n gynharach yn y flwyddyn ac yn tyfu mewn llefydd gwlypach na grug y mynydd.

Yn yr hydref a'r gaeaf trowch eich sylw i'r llyn. Yno, os gwyliwch chi o'r guddfan, fe welwch chi'r hwyaden ddanheddog, y bilidowcar a'r crëyr glas. Mae heidiau o fronfraith yr eira a choch dan adain i'w cael yma hefyd yr adeg yma o'r flwyddyn.

## A living landscape

Bronze-Age man inhabited Gors Maen Llwyd four thousand years ago, continuing to cut down the native forest to graze animals, which encouraged the development of the moorland landscape. A number of burial sites called Tumuli occupy prominent places on the hillsides. These monuments are home to plants like tormentil, harebell, heath speedwell and the rare mountain pansy.

Until the early 1900s the surrounding moorlands of the Mynydd Hiraethog were managed for grouse shooting. Areas of moorland were burnt every 15 years or so to provide new shoots of heather and bilberry to feed grouse and livestock.

In 1976 the valley was flooded to create Llyn Brenig reservoir, providing water to balance extraction from the River Dee. Welsh Water own and manage the lake and surrounding forestry, and offer cycle and walking trails, fishing and run a visitor centre on the western shore (off the A453).

## Management for Wildlife

About three quarters of the world's heather moorland occurs in Britain and much of this has been lost to agriculture and forestry, making it a priority habitat for nature conservation.

While grouse shooting has ceased on Gors Maen Llwyd, the traditional management of burning and cutting heather is used today to create the perfect conditions for red grouse, black grouse and other moorland wildlife. Summer grazing by sheep still takes place so please keep any dogs under control.

## Wildlife to see

Gors Maen Llwyd supports some magnificent and rare wildlife throughout the year. You might see upland birds like snipe and curlew, red grouse that inhabit open moorland, and black grouse that live closer to the forest edge where they roost.

A third of the reserve is wetland, either blanket bog or wet flushes - characterised by sphagnum mosses, hare's-tail cottongrass, bog bean, cranberry and the insect-catching sundew. Thirteen types of sedges grow here. Of particular interest are the white-, dioecious-, tawny- and pill sedges.

These wetland habitats provide ideal conditions for many invertebrates which, in turn, feed grouse chicks and other birds such as meadow pipit, skylark, stonechat, whinchat and wheatear.

Birds of prey such as hen harrier, sparrowhawk, merlin, goshawk and red kite can be seen in the area.

Keep your eyes and ears open for mammals, as fifteen species have been recorded here including fox, badger, weasel, stoat, otter and brown hare.

## Seasonal experiences

In early spring look out for brown hares boxing, listen out for black grouse lekking at dawn and see great crested grebe courting on the lake.

Mid-summer is a good time to see the striking yellow flower of the bog asphodel and breeding birds like the common sandpiper on the lake, skylark on the moor and sand martin nesting in the lake-side banks. Common lizard and adder might be found basking on sunny slopes.

August is the time to experience the splendour of the flowering heather which transforms the hillsides to a deep purple. Bell heather and cross-leaved heath flower earlier and grow in wetter areas.

In autumn and winter, focus on the lake for waterfowl and wading birds such as goosander, cormorant and heron, which can be observed from the bird hide. Flocks of fieldfare and redwing are also common at this time.

